# CYNGOR CAERDYDD
# CARDIFF COUNCIL
# Adroddiad Blynyddol i Aelodau Etholedig 2018
# Annual Report for Elected Members 2018

**Cynghorydd:/ Councillor: Fenella Bowden** **Plaid/ Party: Annibynwyr Y Mynych Bychan a Birchgrove**

**Ward: Y Mynych Bychan** **Etholwyd yn Gyntaf/ First Elected: 01 Mai 2008**

Mae'r adroddiad yn nodi fy mhrif weithgareddau dros flwyddyn ddinesig 2017/18 sy'n dod i ben 24 Mai 2018. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr a dim at unrhyw ddiben arall.

**Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau**

Y Cynghorydd ar gyfer Ward y Mynydd Bychan, yn cynrychioli preswylwyr a galluogi rhyngweithio gyda'r Cyngor a sicrhau bod y Weinyddiaeth yn cymryd cyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar ansawdd bywyd preswylwyr yn y Mynydd Bychan a Birchgrove. Rwyf wedi cyfrannu'n rheolaidd at ddadleuon y Cyngor a holi cwestiynau i Aelodau'r Cabinet. Roeddwn yn Llywodraethwr AALl a Chadeirydd y Llywodraethwyr ar gyfer Ysgol Gynradd Birchgrove tan fis Gorffennaf 2017. Fe wnes i weithio'n agos gyda'r heddlu a sefydliadau partner i fynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion a chynrychioli preswylwyr mewn nifer o wahanol ffyrdd i ddiwallu'r angen. Roeddwn yn aelod o Banel Penodi Llywodraethwyr yr ALl.

Gellir gweld fy nghofnod presenoldeb o ran cyfarfodydd y Cyngor yma: Presenoldeb

**Adran 2: Gweithgareddau Etholaeth**

Rwyf wedi cynnal cymorthfeydd rheolaidd gydol y flwyddyn ac yn credu bod angen i ni fod yn weladwy yn y Ward. Rwyf wedi gweithio'n agos gyda'r heddlu ac wedi mynychu cyfarfodydd PACT eleni.

**Yr Amgylchedd Lleol:** Wedi mynd i'r afael â nifer o faterion: ymgyrchu yn erbyn cau CAGC Heol Wedal; sbwriel yn ein hardal; tipio anghyfreithlon; baw cŵn yn ein strydoedd a mannau gwyrdd agored; gwastraff wedi'i ddympio; masnachwyr metal sgrap didrwydded; mynd i'r afael â niwsans sŵn a materion iechyd amgylcheddol; wedi gwneud sylwadau i'r Cyngor a'r Pwyllgor Cynllunio ar geisiadau cynllunio yn y Ward ar ran preswylwyr. Roedd y rhain yn cynnwys datblygu Aldi ar Caerphilly Road a datblygu tai fforddiadwy yn Allensbank Road.

**Priffyrdd** :Parhau i fynd i'r afael â phroblemau parcio o gwmpas Ysbyty Prifysgol Cymru, Birchgrove ac ar draws y Ward; wedi helpu â phroblemau mynediad i'r anabl; mynd i'r afael â phroblemau parcio anghyfreithlon; cefnogi cynlluniau gwella a diogelwch priffyrdd ar draws y Ward; mynd i'r afael â nifer o faterion arwyneb ffyrdd a materion cerddwyr; parhau i alw am gyfleuster Parcio a Theithio yng ngogledd Caerdydd fel ffordd o leihau traffig sy'n dod i mewn i'r Ward; galw am newidiadau i'r allanfa o Lidl ym Maes y Coed Road; delio â nifer o faterion sy'n codi o'r datblygiad lôn fysus ar hyd Caerphilly Road ac yn ardal siopa Birchgrove; ymgyrchu am barth 20mya yn Birchgrove Road a bolardiau i atal parcio anghyfreithlon.

**Ysgolion:** Delio â phroblemau derbyn i ysgolion; mynychu cyfarfodydd y Corff Llywodraethu a mynychu cyrsiau hyfforddi i Lywodraethwyr; ymwelydd rheoliad i Ysgol Birchgrove gan ymgysylltu â hwy, a rhoi help pan fo angen; gweithio ar faterion parcio peryglus y tu allan i ysgolion yn y Ward; ac ymgyrchu dros groesfannau diogelach i blant. Ymweld â’r ddarpariaeth feithrin leol.
**Parciau a Hamdden:** Cefnogi gwrthwynebiad lleol i osod cae 3G yng Ngerddi Llwynfedw; cefnogi gwaith i wella cyfleusterau Parciau; parhau i godi’r mater o ran problemau baw cŵn mewn mannau gwyrdd agored; delio â materion coed a dail bargodol; cefnogi gweithgareddau yng Nghanolfan Gymunedol Maes y Coed.

**Adran 3: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

- Parhau i ymgyrchu dros gydraddoldeb i breswylwyr Caerdydd a chodi materion mynediad fel rhan o hyn;
- Parhau i ymgyrchu dros amrywiaeth ymgeiswyr yn ein democratiaeth leol;
- Ymgyrchu dros strydoedd glân a lleihau cyflymder o amgylch ysgolion ac amwynderau lleol;
- Wedi dechrau ymgyrchu dros hawliau pobl ifanc sydd yng ngofal preswyl yr ALl i fod yn gyfartal â’r rheiny mewn gofal maeth h.y. gallu parhau mewn gofal y tu hwnt i 18 oed;
- Wedi dod yn ymwybodol o’r anghenion sy’n codi o dlodi bwyd ac ymweld â grwpiau gwirfoddol oedd yn 'bwydo' eu cymunedau a dysgu ganddynt.
  Hefyd wedi cefnogi’r Banc Bwyd unwaith eto dros Nadolig 2017 yn casglu cyfraniadau gan breswylwyr a chynghorwyr;
- Wedi dod yn ymwybodol o dlodi mislif ymysg merched ifanc yn yr ysgol ac wedi cefnogi elusennau lleol o ran codi ymwybyddiaeth ac annog cyfraniadau;
- Wedi cefnogi newyddiadurwyr dan hyfforddiant o Ysgol Newyddiadurwyr Caerdydd gydol y flwyddyn a rhoi cyfweliadau i'r BBC a darlledwyr eraill;
- Wedi gwrthwynebu dympio mwd niwclear ar dir arfordirol Caerdydd;
- Wedi cefnogi cynnig y Weinyddiaeth y dylai ein cyngor eithrio’r rheiny sy’n gadael gofal rhag y dreth gyngor;
- Wedi gwrthwynebu cyflwyno’r Credyd Cynhwysol yng Nghaerdydd;

**Adran 4: Dysgu a Datblygu**

**Hyfforddiant Llywodraethwyr :** Diogelu; Ysgolion hunan-wella; AAA; Plant sy’n Derbyn Gofal; Teithiau Cerdded Dysgu.
**Arall Dysgu:**

- Cod Ymddygiad i Gynghorwyr
- Diogelu Data
- Cydraddoldeb
- Confensiwn y DU ar Hawliau’r Plentyn Rhannau 1 a 2
- Amryw friffiau aelodau.

**Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill**

- Wedi amlygu’r problemau ar gyfer Ward y Mynydd Bychan sy’n codi o’r pwysau traffig ar yr A469 a’r A470 a’r ansawdd aer gwael;
- Herio’r Weinyddiaeth ar y diffyg ymgynghoriadau â phobl ifanc a phobl hŷn ynghylch blaenoriaethau a chynlluniau gwario;
- Wedi dechrau ymchwilio i broblemau unigedd a sut i fynd i’r afael â hwy;
- Wedi amlygu’r peryglon o ran caeau briwsion rwber a’r ymchwil sy’n cael ei wneud yn rhyngwladol;
- Wedi parhau i godi pryderon am y diffyg hyfforddiant sydd ar gael i gynghorwyr ar reoli ymddygiad eraill; o ystyried Arolwg Gadael cynghorwyr Mai 2017;
- Wedi cwrdd â Phanel Tâl Annibynnol Cymru ac amlygu materion fel lwfansau gofal ddim yn cael eu hawlio gan unigolion oherwydd eu bod ofn cael eu beirniadu, a chodi’r posibilrwydd y gallai cynghorwyr rannu swydd.

**Y Cynghorydd Fenella Bowden**